**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Biliau Diwygio

18 Medi 2023

Annwyl David Rees AS

**Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**

Rwy'n amgáu'r Datganiad o Fwriad Polisi ar y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth o dan Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Darperir y ddogfen hon i helpu'r Pwyllgor wrth iddo graffu ar y Bil.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Y Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth

## Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn rhoi syniad o fwriad y polisi presennol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth y byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w gwneud, neu y byddai'n ofynnol iddynt ei gwneud, o dan ddarpariaethau'r Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ("y Bil"). Wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod y darpariaethau'n berthnasol, yn ddilys ac yn gymesur.

2. Bydd y Bil yn cyflawni'r mwyafrif o'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Diben Arbennig y Senedd ar Ddiwygio'r Senedd. Sefydlwyd y Pwyllgor Diben Arbennig yn 2021, gyda chylch gwaith i ystyried y casgliadau a wnaed yn flaenorol gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd a gwneud argymhellion ar gyfer cyfarwyddiadau polisi ar gyfer Bil gan Lywodraeth Cymru ar Ddiwygio'r Senedd. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad *Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru* ym mis Mai 2022, a oedd yn cynnwys argymhellion ar gyfer cyfarwyddiadau polisi ar gyfer deddfwriaeth ar Ddiwygio'r Senedd mewn pryd ar gyfer etholiad nesaf y Senedd yn 2026.

3. Diben cyffredinol y Bil yw gwneud y Senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol ar gyfer, ac ar ran, pobl Cymru.

4. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd, ynghyd â newidiadau cysylltiedig sy'n deillio o'r newid hwn yn y maint. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu'r terfyn deddfwriaethol o ran nifer y Gweinidogion Llywodraeth Cymru a chynyddu'r nifer uchaf o Ddirprwy Lywyddion a gaiff eu hethol o blith yr Aelodau o'r Senedd. Bydd cynyddu capasiti'r Senedd yn ei galluogi i fod yn fwy effeithiol wrth:
    - ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif;
    - goruchwylio a gwella polisi, deddfwriaeth a gwariant, a chraffu ar y rhain; a
    - chynrychioli a gwasanaethu pobl Cymru, ac ymateb iddynt.

5. Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer newid system etholiadol y Senedd fel bod yr holl Aelodau yn cael eu hethol drwy system rhestr gyfrannol gaeedig, gyda phleidleisiau'n cael eu trosi'n seddi drwy fformiwla D'Hondt. Mewn cysylltiad â hyn, mae'n darparu ar gyfer ailgyfansoddi ac ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, gan gynnwys darparu'r swyddogaethau angenrheidiol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau newydd Cymru allu cynnal adolygiadau parhaus o ffiniau etholaethau'r Senedd. Mae hefyd yn darparu cyfarwyddiadau y bydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn eu dilyn i gynnal ei adolygiadau ffiniau. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn gysylltiedig â'r adolygiad symlach i greu etholaethau newydd y Senedd drwy baru'r 32 o

etholaethau newydd Senedd y DU cyn etholiad y Senedd yn 2026 (i greu 16 o etholaethau newydd y Senedd), adolygiad llawn cyn yr etholiad dilynol, ac adolygiadau cyfnodol parhaus.

6. Bydd y Bil hefyd yn sicrhau bod hyd yr amser rhwng etholiadau cyffredinol cyffredin y Senedd yn dychwelyd i bedair blynedd; yn rhoi effaith i'r dyhead i ymgeiswyr ac Aelodau o'r Senedd fod yn preswylio yng Nghymru; yn darparu mecanwaith i'r Senedd ystyried adolygiad o weithrediad ac effeithiau'r darpariaethau deddfwriaethol newydd yn dilyn etholiad 2026 ac unrhyw fater arall sy'n berthnasol i ddiwygio'r Senedd; ac yn darparu llwybr i'r seithfed Senedd ymgymryd â gwaith i archwilio ystyriaethau ymarferol a deddfwriaethol sy'n ymwneud â gweithredu trefniadau rhannu swydd ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiad i'r Senedd a threfniadau i Aelodau rannu swyddi penodol.

# Manylion y pwerau i wneud rheoliadau yn y Bil

***Rhan 1 – Y Senedd a Gweinidogion Cymru***

| Manylion | Y Rheswm dros y Pŵer a'i Fwriad o ran Polisi |
|---|---|
| Cyfeirnod:1<br><br>Adran: 5<br><br>Disgrifiad o'r Pŵer:<br><br>Darparu'r pŵer i wneud rheoliadau er mwyn cynyddu'r terfyn deddfwriaethol o ran nifer y Gweinidogion Cymru yn y dyfodol, i uchafswm o 19 (yn ychwanegol at y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol). | Mae angen y pŵer hwn os bydd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn penderfynu bod angen cynyddu'r terfyn o ran nifer y Gweinidogion Cymru.<br><br>Os daw i rym, nid oes disgwyliad i ddefnyddio'r pŵer hwn ar unwaith i gynyddu'r uchafswm presennol. Byddai'n angenrheidiol i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol gyfiawnhau pam fod amgylchiadau'n golygu bod angen cynyddu'r terfyn o ran nifer y Gweinidogion Cymru y tu hwnt i 17. Gallai hyn fod o ganlyniad i ddatganoli pwerau deddfwriaethol, neu fel arall gallai fod amgylchiadau penodol pan fo cynnydd yn cael ei deilyngu. Byddai cynnydd o'r fath yn amodol ar bleidlais gadarnhaol (mwyafrif) o'r Senedd.<br><br>Mae effaith y pŵer hwn yn barhaol. Unwaith y bydd y pŵer wedi'i arfer i gynyddu'r terfyn o fewn yr ystod a ganiateir, bydd hynny'n dod yn derfyn statudol ar gyfer y Senedd honno a holl Seneddau'r dyfodol, oni bai, a hyd nes, y caiff y pŵer ei arfer i gynyddu'r terfyn eto, hyd at uchafswm o 19. Fodd bynnag, byddai Prif Weinidogion y dyfodol yn parhau i allu dewis penodi llai o Weinidogion Cymru na'r uchafswm a ganiateir mewn deddfwriaeth.<br><br>Caiff y pŵer hwn ei gynnwys yn y Bil yn dilyn argymhelliad gan Bwyllgor Busnes y Senedd y byddai'n "rhesymol i'r ddeddfwriaeth gynnwys mecanwaith a fyddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i gynnig cynyddu'r terfyn hwn ymhellach i uchafswm o 19 drwy is-ddeddfwriaeth, er mwyn diogelu'r ddeddfwriaeth ar gyfer datganoli rhagor o bwerau yn y dyfodol, neu amgylchiadau eraill lle'r ystyrir bod cynnydd yn deilwng". Roedd yr argymhelliad hwn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, a oedd yn cynnwys cwestiwn ynghylch a ddylid cynyddu'r terfyn deddfwriaethol o ran nifer y Gweinidogion Cymru mewn Senedd fwy. |

***Rhan 3 – Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru***

| Manylion | Y Rheswm dros y Pŵer a’i Fwriad o ran Polisi |
|---|---|
| Cyfeirnod: 2<br><br>Adran: 15<br><br>Disgrifiad o’r Pŵer:<br><br>Galluogi Gweinidogion Cymru i newid y cworwm statudol ar gyfer cyfarfodydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (o’r gofyniad statudol presennol, sef tri). | Mae angen y pŵer hwn pe bai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn dod i’r casgliad yn ddiweddarach (h.y. ar ôl iddo gael ei swyddogaethau newydd (gan gynnwys y rhai y disgwylir iddynt gael eu trosglwyddo gan y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) sydd ar y gweill)) fod newid y cworwm sy’n ofynnol ar gyfer cyfarfod o’i Gomisiynwyr yn ddymunol. Bydd cynnydd sylweddol yng nghyfrifoldebau’r Comisiwn oherwydd darpariaethau sydd wedi’u cynnwys yn y Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), felly mae’r dull hwn yn caniatáu hyblygrwydd i’r cworwm gael ei newid ar ôl i’r Comisiwn ddod i arfer â’i fodel gweithredu newydd.<br><br>Felly, mae’r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru gynyddu neu ostwng y rhif cworwm (pe bai angen hynny), ar yr amod nad yw unrhyw ostyngiad yn newid y cworwm i rif sy’n is na thri (sef y cworwm statudol presennol). Byddai rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Mae trafodaethau wedi digwydd ar y pwnc hwn gyda Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol presennol Cymru, ac ni chodwyd unrhyw faterion gyda’r cynnig. |

*Atodlen 1 – Etholaethau'r Senedd ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol Cyntaf ar ôl 6 Ebrill 2026*

| Manylion | Y Rheswm dros y Pŵer a'i Fwriad o ran Polisi |
|---|---|
| Cyfeirnod: 9<br><br>Paragraff 9(1) o Atodlen 1<br><br>Disgrifiad o'r Pŵer:<br><br>Pŵer i Weinidogion Cymru weithredu yn y gyfraith benderfyniadau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn ei adroddiad terfynol ar adolygiad 2026 (yn amodol ar unrhyw addasiadau sy'n ofynnol). | Mae angen y pŵer hwn i sicrhau bod penderfyniadau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn ei adroddiad terfynol ar gyfer adolygiad 2026 yn cael eu gweithredu yn y gyfraith. Bydd y rheoliadau felly'n nodi ac yn amlinellu'r 16 o etholaethau y bydd Aelodau o'r Senedd yn cael eu hethol ar eu cyfer yn yr etholiad cyffredinol cyntaf a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026 (mae'r dyddiad hwn yn ystyried y posibilrwydd y bydd etholiad cyffredinol y Senedd yn cael ei gynnal hyd at fis calendr yn gynharach na'r etholiad sydd wedi'i drefnu ar gyfer 7 Mai 2026).<br><br>Rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gweithredu penderfyniadau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (yn amodol ar unrhyw addasiadau sy'n ofynnol[1]) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ac o fewn 14 wythnos i osod yr adroddiad terfynol gerbron y Senedd, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.<br><br>Pan fo amgylchiadau eithriadol, ac na fo Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud a gosod y rheoliadau o fewn 14 wythnos i osod yr adroddiad terfynol, rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad sy'n nodi'r amgylchiadau eithriadol. Rhaid i Weinidogion Cymru barhau i osod datganiadau o'r fath bob 4 wythnos hyd nes y bydd y rheoliadau yn cael eu gwneud a'u gosod gerbron y Senedd. |

[1] Mae'r Bil yn darparu ar gyfer gwneud addasiadau i'r adroddiad terfynol er mwyn cywiro unrhyw wallau a nodwyd, ac yn nodi'r prosesau y mae rhaid eu dilyn yn yr achos hwnnw.

*Atodlen 2 – Rhan 3A newydd o Ddeddf 2013*

| Manylion | Y Rheswm dros y Pŵer a’i Fwriad o ran Polisi |
|---|---|
| Cyfeirnod: 10 | Mae angen y pŵer hwn i sicrhau, os bydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn penderfynu yn ei adroddiadau terfynol o adolygiadau ffiniau (a gwblheir ar ôl etholiad Senedd 2026) fod angen newidiadau i ffiniau etholaethau’r Senedd, fod y penderfyniadau hynny’n cael eu gweithredu yn y gyfraith. Byddai’r rheoliadau felly’n nodi ac yn amlinellu’r 16 o etholaethau’r Senedd y bydd Aelodau o’r Senedd yn cael eu hethol ar eu cyfer yn etholiad cyffredinol cyffredin nesaf y Senedd.<br><br>Pan fo adroddiadau terfynol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn penderfynu bod angen newidiadau i etholaethau presennol y Senedd, rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n rhoi effaith i’r penderfyniadau hynny (yn amodol ar unrhyw addasiadau sy’n ofynnol[2]) cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl gosod adroddiad terfynol, a beth bynnag o fewn chwe mis, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.<br><br>Pan fo amgylchiadau eithriadol, ac na fo Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud a gosod y rheoliadau o fewn chwe mis i osod yr adroddiad terfynol, rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad sy’n nodi’r amgylchiadau eithriadol. Rhaid i Weinidogion Cymru barhau i osod datganiadau o’r fath bob 4 wythnos hyd nes y bydd y rheoliadau yn cael eu gwneud a’u gosod gerbron y Senedd. |
| Atodlen 2 (adran 49J newydd arfaethedig o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013) | |
| Disgrifiad o’r Pŵer:<br><br>Pŵer i Weinidogion Cymru weithredu yn y gyfraith benderfyniadau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn ei adroddiadau terfynol (yn amodol ar unrhyw addasiadau sy’n ofynnol). | |

[2] Mae’r Bil yn darparu ar gyfer gwneud addasiadau i’r adroddiad terfynol er mwyn cywiro unrhyw wallau a nodwyd, ac yn nodi’r prosesau y mae rhaid eu dilyn yn yr achos hwnnw.